Adroddiad ar

Ysgol Yr Hendy

Iscoed Road
Yr Hendy
Pontarddulais
Sir Gaerfyrddin
SA4 0XD

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Yr Hendy

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Yr Hendy |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Dwyieithog |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 192 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 154 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 21 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 13.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 7.8% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 24.7% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 01/09/2023 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/12/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 13/05/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Un o nodweddion amlycaf Ysgol Yr Hendy yw bod holl yr staff yn meithrin lles a dysgu pob disgybl yn hynod effeithiol mewn amgylchedd dysgu cynhwysol a chreadigol. Trwy hyn, mae gan ddisgyblion agweddau cadarn at eu dysgu lle mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau. Mae disgyblion y ffrwd Gymraeg a'r ffrwd Saesneg yn cyd-ddysgu a chyd-chwarae'n hapus ac yn falch o'u gwreiddiau Cymreig. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd digon da wrth ddatblygu eu medrau Cymraeg, yn enwedig eu medrau llafar.

Mae athrawon a chynorthwywyr yn cydweithio'n llwyddiannus fel aelodau ymroddgar o dîm. Maent yn cynllunio cwricwlwm sydd wedi ei sefydlu ar ymholi ac ymchwil sy'n cyfrannu'n gadarn at wella'r ddarpariaeth i ddisgyblion. Mae staff yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddwysáu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o wahanol agweddau'r cwricwlwm mewn gweithgareddau gwerthfawr, er enghraifft mewn sesiynau 'Gwener Gwych'. Mae athrawon yn rhoi cyfarwyddiadau buddiol i ddisgyblion gyflawni eu gweithgareddau er mwyn iddynt ymgolli yn eu dysgu yn llwyddiannus. Er hyn, nid yw llawer o athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am y dull maent am gyflawni a chyflwyno eu dysgu. Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau yn yr amgylchedd allanol difyr.

Mae gan y pennaeth weledigaeth uchelgeisiol ac mae ei disgwyliadau uchel yn treiddio trwy holl weithgareddau'r ysgol. Mae'r broses hunanwerthuso barhaus i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau yn rhinwedd gref o fedrau addysgu ac arwain staff. Mae'r pennaeth yn ddiwyd wrth ddatblygu holl agweddau'r ysgol ac yn cefnogi ysgolion eraill i wella gwahanol agweddau o arweinyddiaeth, addysgu a dysgu. Mae'r corff llywodraethol yn ymroddedig wrth gefnogi a gwella'r ysgol dros amser ac yn falch bod yr ysgol yn rhan greiddiol o'i chymuned leol. Trwy sicrhau ffynonellau incwm ychwanegol, mae arweinwyr yn rheoli cyllid yn ddarbodus a chreadigol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Datblygu medrau Cymraeg disgyblion ar draws yr ysgol

A2. Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am y dull maent am gyflawni a chyflwyno eu dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae’r ysgol yn cael ei harwain gan bennaeth ymroddgar a chydwybodol sydd â disgwyliadau uchel ohoni ei hun, staff a disgyblion. Mae ei gweledigaeth uchelgeisiol yn treiddio i holl weithgareddau’r ysgol, gyda’r rhieni a’r gymuned ehangach yn gwerthfawrogi bod eu plant yn mynychu’r ysgol hon. Trwy weithredu strategol bwriadus, mae’r pennaeth yn meithrin amgylchedd o barch a chydweithio cyson ymysg staff, rhieni ac aelodau’r corff llywodraethol er mwyn darparu profiadau a chyfleoedd gwerthfawr i’r disgyblion.

Un o rinweddau amlwg yr ysgol yw bod holl aelodau’r staff yn meithrin perthnasoedd gwaith cadarn â phob disgybl a’u bod yn deall eu hanghenion lles a dysgu unigol yn hynod effeithiol. Mae’r amgylchedd dysgu creadigol ac ysgogol yn hyrwyddo’r ddarpariaeth gynhwysol a’r gynhaliaeth sydd ei angen ar bob disgybl er mwyn eu cefnogi i fwynhau eu dysgu a chyflawni hyd orau eu gallu. Mae staff yn hyrwyddo’r iaith Gymraeg a hanes a diwylliant Cymru yn fedrus gyda disgyblion y ffrwd Gymraeg a’r ffrwd Saesneg. Mae hyn yn meithrin yr ymdeimlad o berthyn i ysgol sy’n cyfrannu at agweddau cadarnhaol bron bob disgybl i gyd-ddysgu a chyd-chwarae yn gytûn.

Fel un tîm effeithiol, mae athrawon a chynorthwywyr yn gosod disgwyliadau uchel i ddisgyblion ac yn darparu gweithgareddau difyr sy’n cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu a’u hymddygiad. Maent yn darparu ystod ddiddorol o weithgareddau sy’n cefnogi disgyblion i ddwysáu eu gwybodaeth a dealltwriaeth mewn cyd-destunau dysgu amrywiol. Er enghraifft, mae’r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau rhifedd a digidol yn fedrus wrth ddysgu am effaith newid hinsawdd ar erydiad y tir yn ardal y Mwmbwls gan gyferbynnu’r canlyniadau gydag ardaloedd rhyngwladol eraill. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn ymgolli yn eu dysgu ac yn cymhwyso eu medrau’n effeithiol ar draws y meysydd dysgu.

O’u mannau cychwyn amrywiol, mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae’r disgyblion ieuengaf yn ymroi’n llwyr i’w dysgu gan ddefnyddio adnoddau buddiol i’w cefnogi i ddysgu yn y dosbarth ac yn yr ardaloedd dysgu allanol ysgogol, er enghraifft wrth ddatblygu eu medrau llafar a chreadigol yn y ‘Llecyn Llanast’. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn cefnogi disgyblion i arddel a defnyddio’r Gymraeg fel rhan greiddiol o’u dysgu. Er hyn, nid yw llawer o athrawon yn cefnogi disgyblion ar draws yr ystod oedran yn y ddwy ffrwd i gaffael medrau siarad Cymraeg yn ddigon effeithiol dros amser. Yn ogystal, nid yw disgyblion y ffrwd Gymraeg yn datblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu creadigol yn ddigon effeithiol yn unol â’u hoed a’u cam datblygu.

Mae staff yn cydweithio'n fedrus i ddylunio cwricwlwm ysgogol a pherthnasol sy'n datblygu medrau disgyblion mewn gweithgareddau ar draws y meysydd dysgu, gan gynnwys dwysáu eu gwerthfawrogiad o agweddau ysbrydol a moesol. Er enghraifft, mae staff yn cynnal prosiect ymholi trwy ymchwilio i ddulliau o gynllunio ystod o weithgareddau cyfoethog i ddwysáu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o wahanol agweddau'r cwricwlwm ac i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd trwy'r dull 'Gwener Gwych'. Mae hyn yn cael effaith fuddiol ar gefnogi disgyblion i ddatblygu a chymhwyso eu medrau a'u paratoi ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu.

Gydag arweiniad a chefnogaeth y tîm arwain, ynghyd â chyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol, mae'r holl staff yn cydweithio'n ddiwyd i wella gwahanol agweddau o'r ddarpariaeth.

### Ciplun: ymholi ac ymchwil gweithredol yn sylfaen i gynllunio a gweithredu ar gyfer gwella

Mae'r holl athrawon, cynorthwywyr a llywodraethwyr yn cydweithio'n fwriadus i werthuso effaith y ddarpariaeth ar wahanol agweddau o'r addysgu a'r dysgu. Fel rhan o'r broses ymholi, mae staff yn casglu cyfuniad o wybodaeth feintiol ac ansoddol er mwyn gwerthuso effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion fel sail i gynllunio a gweithredu ymchwil. Trwy hyn, maent yn sicrhau bod y gwelliannau arfaethedig yn mynd i gael eu llywio gan dystiolaeth gadarn sy'n seiliedig ar anghenion penodol disgyblion.

Caiff tystiolaeth werthusol ei hymgorffori'n fedrus fel sylfaen i gynllunio ar gyfer gwella. O ganlyniad, mae cynllun datblygu'r ysgol yn mynd i'r afael â chwestiynau ymholiad cyffredinol a miniog ar feysydd sydd wedi'u nodi'n feysydd y mae angen i'r ysgol eu gwella. Mae'r cylch 'Cynllunio, Gwneud, Adolygu' yn sicrhau bod yr holl bartneriaid yn cyd-ddatblygu agweddau penodol o'r ddarpariaeth mewn dull strategol ac ymarferol.

Trwy gydweithio effeithiol â darparwyr addysg amrywiol, mae'r partneriaid yn datblygu hyder a dealltwriaeth gyson o sut i gael mynediad at dystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol ddibynadwy sydd o ansawdd uchel. Defnyddir y dystiolaeth fel sail i gynllunio gweithgareddau defnyddiol, sydd yn ei dro yn esgor ar ddeilliannau perthnasol fel rhan o'r ymchwil. Er enghraifft, maent yn mireinio'r ddarpariaeth er mwyn helpu disgyblion i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws meysydd dysgu yn effeithiol.

Mae athrawon yn cefnogi disgyblion i wybod beth maent yn ei wneud yn dda a'r hyn sydd angen iddynt ei wella yn effeithiol. Mae'r dulliau asesu yn gyson ar draws yr ysgol ac mae disgyblion yn falch o'r gefnogaeth maent yn ei chael i ddatblygu eu dysgu. Mae disgyblion yn ymgolli yn eu dysgu ac yn dyfalbarhau'n ddiwyd er mwyn cyflawni gweithgareddau dysgu dan arweiniad staff. Er hyn, nid yw'r ddarpariaeth bob tro'n cefnogi disgyblion i wneud dewisiadau annibynnol am y dull maent am gyflawni a chyflwyno eu dysgu.

Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd maent yn eu cael i ddylanwadau ar fywyd a gwaith ehangach yr ysgol. Mae aelodau'r Senedd yn cydweithio'n dda i gydgynllunio profiadau yn y gymuned sy'n cael effaith gadarnhaol ar brofiad eu cyfoedion, er enghraifft wrth gynnal gweithgareddau garddio yng Nghanolfan Gwili. Yn ogystal, mae'r holl ddisgyblion yn cael profiadau gwerthfawr i feithrin eu hyder mewn amrywiaeth eang o weithgareddau celfyddydol a chwaraeon, fel cystadlu yn Eisteddfod Yr Hendy a chymryd rhan mewn twrnameintiau chwaraeon yn lleol a chenedlaethol.

Mae staff yn olrhain cynnydd gwahanol grwpiau o ddisgyblion yn fanwl ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i gefnogi lles a dysgu disgyblion. Elfen nodedig o'r ysgol yw'r ddarpariaeth gynhwysol ar gyfer pob disgybl ar draws yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at fwynhad disgyblion yn eu dysgu ac at eu balchder mewn mynychu'r ysgol sy'n rhan greiddiol o'u profiad o fewn y gymuned glòs. Mae'r 'panel addysg dysgu ychwanegol (ADY)', sy'n cynnwys staff ac aelod o'r corff llywodraethol, yn trafod anghenion disgyblion unigol ar y cyd â rhieni, er mwyn darparu cefnogaeth benodol ar eu cyfer. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag ADY a'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn ymroddedig i'r ysgol ac yn cefnogi a herio arweinwyr yn adeiladol a synhwyrol er mwyn sicrhau gwelliant parhaus i'r ddarpariaeth a deilliannau dysgu'r disgyblion. Er enghraifft, maent yn cefnogi staff i wella'r ddarpariaeth er mwyn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd cyson yn eu medrau digidol. Trwy weithdrefnau hunanwerthuso pwrpasol y corff, mae ganddynt wybodaeth drylwyr am gynnydd a safonau disgyblion a'r ddarpariaeth yn ei chyfanrwydd. Maent yn cynllunio gweithgareddau gwerthuso buddiol i gefnogi arweinwyr ymhellach, er enghraifft wrth reoli cyllid yr ysgol yn ddarbodus.

Mae'r pennaeth yn gwneud defnydd blaengar a hynod effeithiol o ffynonellau incwm a grantiau lleol a chenedlaethol i gefnogi staff yr ysgol ac ysgolion eraill i wella gwahanol agweddau o arweinyddiaeth, addysgu a dysgu. Trwy ddefnyddio'r ffynonellau hyn yn greadigol, darperir cyfleoedd buddiol i staff gynnal sgyrsiau proffesiynol er mwyn parhau i arloesi yn eu hymarfer ac i gael profiadau arwain gwerthfawr trwy'r model arweinyddiaeth ddosranedig.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn effeithiol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae’r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *‘y rhan fwyaf o ddisgyblion…’* neu *‘ychydig iawn o ddisgyblion…’*. Rydym yn defnyddio’r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/07/2025